Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.08.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Lefel Rhybudd 0

Dyma grynodeb cyflym o'r newidiadau i fusnesau ar Lefel Rhybudd 0:

- Gall pob busnes ac adeilad ailagor
- Dim cyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl sy'n gallu cyfarfod
- Dim gofyniad cyfreithiol ar gyfer ymbellhau cymdeithasol 2m, gwasanaeth bwrdd na mynediad rheoledig
- Bellach, dylai casglu gwybodaeth am gwsmeriaid fod yn rhan o asesiad risg busnes, er nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gasglu manylion ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu

- Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob man cyhoeddus dan do o hyd, ac eithrio tafarndai, bwytai a chaffis a lleoliadau addysg
- Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau, a rhaid iddynt gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws

Darllenwch y canllawiau llawn trwy fynd i:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

Mae'r canllawiau ar baratoi eich asesiad risg yma:

https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

## COVID-19: Cardiau gweithredu mesurau rhesymol

Mae cyngor i fusnesau ynghylch y mesurau rhesymol y dylent eu cymryd wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cardiau gweithredu ar gyfer gwahanol sectorau gan gynnwys manwerthu, lletygarwch, digwyddiadau, gwasanaethau cyswllt agos, twristiaeth a lleoliadau cerddoriaeth. Gall y rhain fod o gymorth aruthrol wrth i chi wrth gyflawni'ch gofyniad cyfreithiol i gynnal asesiad risg coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ledu coronafeirws.

I ddarllen y cardiau gweithredu ewch i:

https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

## COVID-19: Awyru | Canllawiau diweddaraf HSE (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)

Bydd canllawiau wedi'u diweddaru gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), yn eich helpu i adnabod ble mae awyru gwael yn y gweithle a chymryd camau ymarferol i'w wella. Gall hyn helpu i leihau'r risg y bydd COVID-19 yn ymledu yn eich gweithle. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3mdV9gm

# COVID-19: Brechu

Cynhelir clinig brechiad Pfizer ar gyfer rhai dros 16 oed yn Nhŷ Doctor, Nefyn LL53 6EG ar Ddydd Sadwrn 21 Awst 2021. Gellir gwneud apwyntiad trwy ffonio 0773 5776919 rhwng 9:00am a 5:00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener), neu trwy yrru neges destun unrhyw adeg i 0773 5776919 gan gynnwys enw a dyddiad geni.

Mae pecyn hyrwyddo ar gael sy'n dangos sut gall cyflogwyr helpu i gefnogi eu staff a hyrwyddo'r rhaglen frechu coronafeirws (COVID-19), ewch i:

https://llyw.cymru/brechiad-covid-19-pecyn-hyrwyddo-i-gyflogwyr

# COVID-19: Profi

Mae gan Lywodraeth Cymru gyngor ar gael, a Phrofion Llif Unffordd (LFTs) am ddim i fusnesau sy'n dymuno sefydlu trefn brofi yn eu gweithleoedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

https://llyw.cymru/fframwaith-profi-covid-19-yn-y-gweithle-html

Gallwch chi a'ch staff hefyd gasglu citiau prawf am ddim o nifer o leoliadau ledled Gwynedd:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

Am wybodaeth gyffredinol ar brofi ac olrhain, ewch i:

https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws

# COVID-19: Hunan ynysu

Mae'r rheolau ar hunan ynysu wedi newid, ond mae angen i unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 neu sydd â chanlyniad prawf positif – ac aelodau eu cartref – ynysu am 10 diwrnod o hyd. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl yma:

https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu

Mae gwybodaeth am y cynllun cymorth ariannol hunan ynysu ar gael yma:

https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu

## COVID-19: Adnoddau cyffredinol

Am y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Dylai busnesau lletygarwch a thwristiaeth hefyd fynd i:

https://llyw.cymru/cadw-cofnodion-ynghylch-staff-cwsmeriaid-ac-ymwelwyr-profi-olrhain-diogelu

Ar gyfer asedau digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheoliadau yng Nghymru o 7 Awst 2021, ewch i:

https://bit.ly/AsedauLefel0Assets

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru